

**PRIFYSGOL CAERDYDD**

**Adroddiad a Datganiadau Ariannol**

**31 Gorffennaf 2006**

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL 2006

<b>CYNNWYS</b>	<b>Tudalen</b>
Adroddiad y Trysorydd	3
Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol	5
Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd	6
Adroddiad yr archwilwyr annibynnol	8
Cyfrif incwm a gwariant	10
Datganiad o gost hanesyddol y gwargedion a'r dyledion	10
Datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig	11
Y mantolenni	12
Datganiad o'r llif arian	14
Nodiadau ar y datganiadau ariannol	15

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## ADRODDIAD Y TRYSORYDD

### Cwmpas y datganiadau ariannol

Mae'r datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diweddu ar 31ain Gorffennaf, 2006 yn cyfnerthu canlyniadau'r Brifysgol a'i dau is-gwmni, sef Cardiff University Properties Cyf a University College Cardiff Consultants Cyf.

### Canlyniadau am y Flwyddyn

Dyma grynodeb o ganlyniadau incwm a gwariant cyfnerthedig y Brifysgol am y flwyddyn hyd at 31ain Gorffennaf, 2006:

	<u>2005/06</u> £000	<u>2004/05</u> £000 (Ailddatganwyd)
Incwm	344,437	314,735
Gwariant	<u>(336,588)</u>	<u>(307,206)</u>
Gwarged am y Flwyddyn ar ôl Dibrisio		
Asedau yn ôl Prisiad a Threth	7,849	7,529
Trosglwyddiad (i)/o Incwm Cronnus mewn Gwaddolion Penodol	<u>(293)</u>	<u>3</u>
Gwarged am y Flwyddyn a Gadwyd yn y Cronfeydd Cyffredinol wrth gefn	<u>7,556</u>	<u>7,532</u>
Gwarged am y Flwyddyn ar Sail Cost Hanesyddol	<u>11,220</u>	<u>11,007</u>

Cynyddodd yr incwm M£30 (10%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cynnydd o M£9 yng ngrant Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) a chynnydd o M£3 yn yr incwm o ffioedd dysgu oedd yn rhannol gyfrifol am y cynnydd hwnnw. Cynyddodd yr incwm o grantiau a chontractau ymchwil dros M£10 gan gyrraedd dros M£76 yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cynyddodd y gwariant hefyd M£29 (10%) gan adlewyrchu'n bennaf y cynnydd yn y costau staff a oedd yn gysylltiedig â'r cynnydd yn eu niferoedd, chwyddiant a drifft cynyddrannol. Bu cynnydd o fwy na M£16 yn y treuliau gweithredu eraill, yn rhannol oherwydd y cynnydd yn y gwariant ar gontractau ymchwil a'r gwasanaethau a ddarparwyd.

### Perfformiad y Buddsoddiadau a'r Llif Arian

Gweinyddir y balansau arian yn unol â Pholisi Rheoli Trysorlys y Brifysgol. Yn ystod 2005/06, fe berfformiodd buddsoddiadau arian y Brifysgol ychydig bach yn waeth na'r cymaryddion marchnad y cytunwyd arnynt.

Mae'r datganiad cyfnerthedig o lif arian yn dangos mewnlifiad arian net o M£18.5 o weithgareddau gweithredu. Yn ystod 2005/06, buddsoddodd y Brifysgol dros M£17 mewn adeiladu asedau a oedd yn cynnwys preswylfeydd newydd i fyfyrwr y gwariant pellach ar adeiladau academiaidd.

### Cynlluniau Pensiwn

Mae staff clinigol, academiaidd a chysylltiedig y Brifysgol yn aelodau o Gynllun y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) neu o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion, a'r unig gost a gydnabyddir yn y cyfrifon yw cyfraniadau'r cyflogwr.

Mae'r staff anacademaidd a chlinigol yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd, Cynllun Blwydd-dal Prifysgol Caerdydd (Coleg Meddygaeth Cymru) a Chynllun Llywodraeth Leol. Y diffyg cyfun ar bob un o'r tri chynllun, fel y'i cyfrifwyd at ddibenion FRS 17, oedd M£41.4 ar 31ain Gorffennaf 2006 (M£40.9 ar 31ain Gorffennaf 2005). Mae'r diffygion hyn wedi'u cyfrifo at ddibenion FRS 17 ac wedi'u hymgorffori yn y canlyniadau ariannol eleni am y tro cyntaf.

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## ADRODDIAD Y TRYSORYDD

### Datblygiadau at y Dyfodol

Fel y nodwyd eisoes, gwelodd 2005/06 fuddsoddi sylweddol yn isadeiledd academaidd a chymorth y Brifysgol ac mae datblygiadau pellach ar y gweill ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cwblhau adeilad newydd ar gyfer yr Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg, ailwampio helaeth ar adeiladau academaidd ar gampws Mynydd Bychan a champws Parc Cathays, a chryn fuddsoddi yn y system technoleg gwybodaeth yn y Brifysgol.

Er bod y balansau arian yn dal i fod yn gryf, gellir disgwyl mai effaith yr ymrwymadau uchod ynghyd â'r cynnydd yn y buddsoddi mewn penodi staff academaidd i gryfhau rhagor ar ragoriaeth y Brifysgol mewn addysgu ac ymchwil fydd gostwng y balansau arian yn y dyfodol.

### Casgliad

Mae'r datganiadau ariannol yn dal i ddarlunio sefyllfa foddhaol gan eu bod yn adlewyrchu cryfder ariannol sylweddol a manteision yr uno.

Hywel Jones  
Trysorydd

Dyddiad 12 Rhagfyr, 2006

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## DATGANIAD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i arddangos yr arferion gorau ym mhob agwedd ar ei llywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r modd y mae'r Brifysgol wedi cymhwyso'r egwyddorion a amlinellir yn Adran 1 y Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Gyfnewidfa Stoc Llundain ym mis Mehefin 1998. Ei ddiben yw helpu'r sawl sy'n darllen y Datganiadau Ariannol i ddeall sut mae'r egwyddorion wedi'u cymhwyso.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am system reoli fewnol y Brifysgol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Mae'r system honno wedi'i llunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes ac ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, rhag camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae gan y Cyngor broses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Brifysgol ac mae'r broses honno wedi bod ar waith ar gyfer y cyfan o'r flwyddyn yn diwedd 31ain Gorffennaf 2006. Caiff y Cyngor adroddiad rheolaidd sy'n cynnwys adrannau ar reoli risg, rheoli a chydymffurfio sy'n cyd-fynd â'r cyfarwyddyd ar reoli mewnol i gyfarwyddwyr ar y Cod Cyfun fel y barnwyd ei fod yn briodol ar gyfer addysg uwch. Ar sicrhau'r radd berthnasol o sicrwydd y mae'r pwyslais, ac nid ar wneud dim ond adrodd ar sail eithriadau.

Yn unol â Chanllaw Pwyllgor Cadeiryddion y Brifysgol, caiff y Cyngor adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at ganlyniadau ac amcanion strategol allweddol y Brifysgol a bydd hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Cyngor.

Bydd Cyngor y Brifysgol yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn ac mae ganddo sawl pwyllgor, gan gynnwys Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau, Pwyllgor Enwebiadau, Pwyllgor Taliadau a Phwyllgor Archwilio. Mae'r holl Bwyllgorau hynny wedi'u sefydlu'n ffurfiol, ac mae ganddynt gylchoedd gwaith.

O ran ei gyfrifoldebau strategol a'i gyfrifoldebau datblygu, caiff y Cyngor argymhellion a chyngor gan y Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau, sef un o bwyllgorau sefydlog y Cyngor, a chan y Senedd, sef y corff sy'n gyfrifol am faterion academaidd y Brifysgol.

Y Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau sy'n rheoli, yn monitro ac yn rheoleiddio cyllid, cyfrifon a buddsoddiadau'r Brifysgol o fewn y polisi cyffredinol a bennwyd gan y Cyngor. Ceir hefyd Grwp Cyllid. Fe'i aedeir gan y Trysorydd ac mae'n cynnwys Is-Gadeirydd y Cyngor, aelod lleig o'r Cyngor yn ogystal â'r Is-Ganghellor, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Rheolwr Ariannol. Bydd y Grwp Cyllid yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn i drafod materion ariannol manwl a materion manwl rheoli mewnol er mwyn rhoi cyngor i'r Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau yn ôl yr angen.

Y Pwyllgor Enwebiadau sy'n ceisio ac yn cymeradwyo aelodau lleig a chyfetholedig newydd i wasanaethu ar y Cyngor ei hun, a'i is-bwyllgorau, yng ngoleuni'r sgiliau a'r cymwysterau gorau posibl y bydd eu hangen. Aelodau lleig yw'r mwyafrif o aelodau'r Cyngor.

Y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar daliadau'r mwyafrif o'r staff uwch, gan gynnwys yr Is-Ganghellor.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn. Bydd archwilwyr mewnol y Brifysgol yn mynychu pob cyfarfod, a bydd yr archwilwyr allanol yn bresennol i ystyried y Datganiadau Ariannol blynyddol a llythyr y rheolwyr neu, fel arall, pan gânt gais i fod yn bresennol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y Brifysgol yn ogystal ag ymatebion a chynlluniau gweithredu y rheolwyr. Bydd hefyd yn cael ac yn ystyried adroddiadau gan CCAUC a Swyddfa Archwilio Cymru yn ôl fel y maent yn effeithio ar fusnes y Brifysgol, ac yn monitro i ba raddau y glynwyd wrth y gofynion rheoleiddio. Nid yw'r Is-Ganghellor na'r uwch-weithredwyr eraill yn aelodau o'r Pwyllgor a deuant i'w gyfarfodydd drwy wahoddiad.

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## CYFRIFOLDEBAU CYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD

Yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, y Cyngor sy'n gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system effeithiol o reoli mewnol, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno Datganiadau Ariannol archwiledig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n datgelu'n rhesymol o gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol y Brifysgol a'i his-gwmnïau ac yn ei alluogi i sicrhau y paratoid y Datganiadau Ariannol yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCAUC, y Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifydda mewn Sefydliadau Addysg Uwch, a safonau cyfrifo perthnasol eraill. Yn ogystal, ac o fewn amodau a therau'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng CCAUC a Chyngor y Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, drwy ddeiliad dynodedig y swydd, baratoi Datganiadau Ariannol am bob blwyddyn ariannol gan roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Brifysgol a'i his-gwmnïau ac o'r gwarged neu'r ddyled, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifedd arian am y flwyddyn honno.

Wrth beri i'r Datganiadau Ariannol gael eu paratoi, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod:

- polisiau cyfrifydda addas wedi'u dewis a'u cymhwyso'n gyson;
- y dyfarniadau a'r amcangyfrifon yn rhesymol a doeth;
- y safonau cyfrifydda cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y Datganiadau Ariannol;
- y Datganiadau Ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes byw. Mae'r Cyngor yn fodlon bod ganddo adnoddau digonol i barhau mewn busnes yn y dyfodol rhagweladwy; a dyna pam y mae'r sail busnes byw yn dal i gael ei mabwysiadu wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau y caiff y cyllid a gaiff gan CCAUC, Cyngor Cenedlaethol ELWa/Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyllido eraill ei ddefnyddio'n unig i'r dibenion y'i darparwyd ar eu cyfer ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol â CCAUC ac unrhyw amodau eraill y gall CCAUC neu Gorff Cyllido eu rhagnodi o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod dulliau rheoli ariannol a rheolaethol priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r Brifysgol a'i his-gwmnïau ac atal a chanfod twyll;
- sicrhau y caiff adnoddau a gwariant y Brifysgol a'i his-gwmnïau eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae elfennau allweddol system rheolaeth ariannol fewnol y Brifysgol, a luniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod, yn cynnwys:

- diffiniadau clir o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academiaidd a chyfarwyddiaethau gweinyddol ac o'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt;
- proses gynllunio, a ategir â chyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol manwl, a bod y Cyngor yn cymeradwyo'r gyllideb gyffredinol;
- adolygiadau rheolaidd o'r canlyniadau ariannol, gan gynnwys adrodd ar amrywiadau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhagolwg o ran canlyniadau;
- gofynion sydd wedi'u diffinio a'u ffurfioli'n glir ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant;
- Rheoliadau Ariannol cynhwysfawr sy'n rhoi manylion y dulliau rheoli a'r gweithdrefnau ariannol ac sydd wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor;

## **PRIFYSGOL CAERDYDD**

### **CYFRIFOLDEBAU CYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD**

- tîm Archwilio Mewnol y mae ei raglen flynyddol wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ac yna gan y Cyngor.

Er hynny, y cyfan y gall unrhyw system reoli ariannol fewnol ei wneud yw darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled berthnasol.

Drwy Orchymyn y Cyngor

Dr David Grant  
Swyddog Cyfrifo

Dyddiad: 12 Rhagfyr, 2006

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Caerdydd ('y datganiadau ariannol') am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2006, sef y Cyfrif Cyfnerthedig o Incwm a Gwariant, y Mantolenni, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian, y Datganiad Cyfnerthedig o Gyfanswm Cydnabyddedig yr Enillion a'r Colledion a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi o dan gonfensiwn y gost hanesyddol (fel y'u diwygiwyd gan ailbriso rhai asedau sefydlog penodol) ac yn unol â'r polisiau cyfrifydda a amlinellir yn y Datganiad o Bolisiau Cyfrifydda.

### **Priod gyfrifoldebau Cyngor y Brifysgol a'r archwilwyr**

Fel y disgrifir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd, Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifydda a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifydda ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, y gyfraith berthnasol o eiddo'r Deyrnas Unedig a'r Safonau Cyfrifydda (yr Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y farn a fynegir ynddo, wedi'i baratoi ar gyfer Cyngor y Brifysgol a Chyngor y Brifysgol yn unig ac yn unol â Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac i ddim diben arall. Nid ydym, wrth roi'r farn hon, yn derbyn nac yn ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldeb at unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu iddi neu y gall fynd i'w (d)dwyllo ac eithrio lle y cydsyniwyd yn benodol ac yn ysgrifenedig gennym ni ymlaen llaw.

Yr ydym yn adrodd i chi ein barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi'n briodol ac yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifydda a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifydda ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch. Yr ydym hefyd yn adrodd i chi ein barn ar a yw'r arian a wariwyd o grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chronfeydd eraill o ba ffynonellau bynnag a weinyddir gan y sefydliad at ddibenion penodol wedi'i gymhwyso'n briodol at y dibenion hynny ac, os yw'n briodol, a yw ef wedi'i reoli gan gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ac a yw'r incwm, yn ein barn ni, ac ym mhob ffordd o bwys, wedi'i gymhwyso yn unol â'r memorandwm ariannol â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Yr ydym hefyd yn adrodd i chi ein barn ynghylch a yw'r Sefydliad heb gadw cofnodion cyfrifydda cywir, a yw'r cofnodion cyfrifydda heb gyd-fynd â'r datganiadau ariannol, neu a ydym heb gael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnom i wneud ein harchwiliad.

Byddwn ni'n darllen y wybodaeth arall sydd yn y Datganiadau Ariannol ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad os down i wybod am unrhyw gamddatganiad ymddangosiadol neu unrhyw anghysonder o bwys â'r datganiadau ariannol. Nid yw'r wybodaeth arall ond yn cynnwys Adroddiad y Trysorydd, y Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor y Brifysgol.

Byddwn ni hefyd yn adolygu'r datganiad o reolaeth fewnol sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r datganiad ynghylch Llywodraethu Corfforaethol ac yn cyflwyno sylwadau os yw'r datganiad yn anghyson â'n wybodaeth o'r Sefydliad a'r Grwp. Nid oes gofyn i ni ystyried a yw'r datganiad o reolaeth fewnol yn ymdrin â phob risg a dull rheoli, na ffurfio barn ynghylch pa mor effeithiol yw gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Sefydliad neu ei weithdrefnau risg a rheoli. Byddwn ni'n ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os down i wybod am unrhyw gamddatganiad ymddangosiadol neu unrhyw anghysondeb o bwys â'r datganiadau ariannol. Nid yw'n cyfrifoldebau ni'n estyn i unrhyw wybodaeth arall.

### **Sail y farn archwilio**

Fe gynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac â'r Cod Ymarfer ar Archwilio a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae archwiliad yn cynnwys astudiaeth, ar sail prawf, o dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r dadlenniadau yn y datganiadau ariannol. Mae ef hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau sylweddol a wnaed gan Gyngor y Brifysgol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Brifysgol ac yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u dadlennu'n ddigonol.

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y credem eu bod yn angenrheidiol er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i ni i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau o bwys, p'un a achoswyd hynny drwy dwyll neu drwy afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth ffurfio'n barn, gwnaethom hefyd bwysu a mesur digonolrwydd cyffredinol cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

### Barn

Yn ein barn ni:

- i. mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Sefydliad a'r Grwp ar 31 Gorffennaf 2006 ac o'r gwarged incwm dros wariant a'i llifoedd arian am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny ac maent wedi'u paratoi'n briodol ac yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifydda a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifydda mewn Sefydliadau Bellach ac Uwch, ac â'r Arferion Cyfrifydda a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- ii. ym mhob ffordd o bwys, mae'r arian o grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chronfeydd eraill o ba ffynhonnell bynnag, a weinyddir gan y Sefydliad at ddibenion penodol, wedi'u cymhwysu'n briodol at y dibenion hynny ac, os yw'n briodol, wedi'u rheoli gan gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol;
- iii. ym mhob ffordd o bwys, mae'r incwm wedi'i gymhwysu yn unol â Statudau'r Sefydliad, a lle'r oedd yn briodol, yn unol â'r memorandwm ariannol â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

PricewaterhouseCoopers LLP  
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig  
Caerdydd  
12 Rhagfyr 2006

**PRIFYSGOL CAERDYDD**

**CYFRIF INCWM A GWARIANT**  
**Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2006**

	<b>Nodyn</b>	<b>2006</b>	<b>2005</b>
		<b>£'000</b>	<b>Ailddatganwyd £'000</b>
<b>INCWM</b>			
Grantiau o CCAUC	2	115,518	106,397
Ffioedd academaidd a grantiau cymorth	3	71,568	68,346
Grantiau a chontractau ymchwil	4	76,787	66,039
Incwm gweithredu arall	5	75,709	68,450
Incwm o waddolion a llog derbyniadwy	6	4,855	5,503
		<hr/>	<hr/>
Cyfanswm yr Incwm		344,437	314,735
		<hr/>	<hr/>
<b>GWARIANT</b>			
Costau staff	7	191,629	179,807
Treuliau gweithredu eraill	8	129,668	112,798
Dibrisiad	12	12,403	12,079
Llog taladwy a chodiadau tebyg	9	2,888	2,522
		<hr/>	<hr/>
Cyfanswm y Gwariant	10	336,588	307,206
		<hr/>	<hr/>
Gwarged ar weithrediadau parhaus ar ôl dibrisio asedau adeg eu prisio, gwaredu asedau a threth		7,849	7,529
Trosglwyddo (i)/o incwm cronnus mewn gwaddolion penodol		(293)	3
		<hr/>	<hr/>
Gwarged am y flwyddyn wedi'i gadw yn y cronfeydd cyffredinol wrth gefn	23	7,556	7,532
		<hr/>	<hr/>

**DATGANIAD O GOST HANESYDDOL Y GWARGEDION**  
**Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2006**

	<b>Nodyn</b>	<b>2006</b>	<b>2005</b>
		<b>£'000</b>	<b>Ailddatganwyd £'000</b>
Gwarged ar weithrediadau parhaus		7,849	7,529
Ailbrisisio rhyddhau arian wrth gefn wrth waredu asedau sefydlog	22	-	149
Y gwahaniaeth rhwng codiad dibrisiad ar sail cost hanesyddol a'r codiad dibrisiad gwirioneddol am y flwyddyn o'i gyfrifo ar sail y swm a ail-brisiwyd	22	3,371	3,329
		<hr/>	<hr/>
Gwarged cost hanesyddol a gadwyd am y flwyddyn		11,220	11,007
		<hr/>	<hr/>

## PRIFYSGOL CAERDYDD

### DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2006

	Nodyn	2006 £'000	2005 Ailddatganwyd £'000	
Gwarged ar weithrediadau parhaus ar ôl dibrisio asedau adeg eu prisio, gwerthu asedau a threth		7,849	7,529	
Arbrisiad buddsoddiadau ased gwaddol	21	1,683	2,731	
Gweddill o wariant y gwaddoliad cyffredinol dros incwm	21	(66)	(78)	
Gwaddolion newydd	21	335	363	
Colled actiwaraid ar y cynllun pensiwn	30	(2,400)	(10,800)	
		<b>CYFANSWM YR ENILLION/(COLLEDION) CYDNABYDDEDIG MEWN PERTHYNAS Â'R FLWYDDYN</b>	<b>7,401</b>	<b>(255)</b>
Addasiad FRS 17 i'r Flwyddyn Flaenorol		(38,724)	-	
		<b>CYFANSWM Y GOLLED GYDNABYDDEDIG ERS YR ADRODDIAD BLYNYDDOL DIWETHAF</b>	<b>(31,323)</b>	<b>(255)</b>
		<b>Cysoni</b>		
Cronfeydd wrth gefn a gwaddolion wrth agor – fel y datganwyd o'r blaen		267,246	255,839	
Addasiad FRS 17 i'r Flwyddyn Flaenorol		(38,724)	(27,062)	
Cronfeydd wrth gefn a gwaddolion wrth agor, o'u haddasu		228,522	228,777	
Cyfanswm yr enillion/(colledion) cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn		7,401	(255)	
Cronfeydd wrth gefn a gwaddolion wrth gau		235,923	228,522	

**PRIFYSGOL CAERDYDD**

**Y MANTOLENNI  
Ar 31 Gorffennaf 2006**

	Nodyn	Cyfnerthedig		Y Brifysgol	
		2006 £'000	2005 Ailddatganwyd £'000	2006 £'000	2005 Ailddatganwyd £'000
<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>					
Asedau diriaethol	12	319,652	314,240	319,652	314,240
Buddsoddiadau	13	80	76	136	247
		<u>319,732</u>	<u>314,316</u>	<u>319,788</u>	<u>314,487</u>
<b>BUDDSODDIADAU ASEDAU GWADDOLION</b>					
	14	26,070	23,825	26,070	23,825
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>					
Stociau	15	135	168	135	168
Dyledwyr	16	39,325	44,199	39,923	44,785
Adneuon tymor-byr		87,469	60,724	86,672	60,258
Arian yn y banc ac mewn llaw		2,527	2,861	2,527	2,861
		<u>129,456</u>	<u>107,952</u>	<u>129,257</u>	<u>108,072</u>
<b>CREDYDWYR: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn</b>	17	(53,838)	(51,018)	(53,437)	(50,946)
<b>ASEDAU CYFREDOL NET</b>		<u>75,618</u>	<u>56,934</u>	<u>75,820</u>	<u>57,126</u>
<b>CYFANSWM YR ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL</b>		421,420	395,075	421,678	395,438
<b>CREDYDWYR: symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn</b>	18	(33,588)	(19,546)	(33,588)	(19,546)
<b>DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A CHODIADAU</b>	30	(41,400)	(40,900)	(41,400)	(40,900)
<b>INCWM GOHIRIEDIG ARALL</b>	19	(20,168)	(17,623)	(20,168)	(17,623)
<b>ASEDAU NET</b>		<u><u>326,264</u></u>	<u><u>317,006</u></u>	<u><u>326,522</u></u>	<u><u>317,369</u></u>

**PRIFYSGOL CAERDYDD**

**Y MANTOLENNI**  
**Ar 31 Gorffennaf 2006 (Parhad)**

	Nodyn	<u>Cyfnertedig</u>		<u>Y Brifysgol</u>	
		2006	2005	2006	2005
		£'000	Ailddatganwyd £'000	£'000	Ailddatganwyd £'000
<b>GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG</b>	20	90,341	88,484	90,341	88,484
<b>GWADDOLION</b>					
Penodol	21	23,181	21,000	23,181	21,000
Apêl	21	52	47	52	47
Cyffredinol	21	2,837	2,778	2,837	2,778
		<u>26,070</u>	<u>23,825</u>	<u>26,070</u>	<u>23,825</u>
<b>CRONFEYDD WRTH GEFN</b>					
Ailbriso'r cronfeydd wrth gefn	22	107,141	110,512	107,141	110,512
Cronfeydd cyffredinol wrth gefn	23	102,712	94,185	102,970	94,548
		<u>209,853</u>	<u>204,697</u>	<u>210,111</u>	<u>205,060</u>
<b>CYFANSWM</b>		<u>326,264</u>	<u>317,006</u>	<u>326,522</u>	<u>317,369</u>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Cyngor ar 12 Rhagfyr 2006.  
Llofnodwyd ar ran y Cyngor

Dr David Grant - Is-Ganghellor

Mr Hywel Jones - Trysorydd Mygedol

Mr D M Davies - Cyfarwyddwr Cyllid

**PRIFYSGOL CAERDYDD**

**DATGANIAD CYFNERTHEDIG O'R LLIF ARIAN**  
**Y flwyddyn yn diwedd 31 Gorffennaf 2006**

	Nodyn	2006 £'000	2005 £'000
<b>Llif arian o'r gweithgareddau gweithredu</b>	24	18,498	11,882
Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid	25	2,590	4,399
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol	26	(10,953)	(36,691)
Rheoli adnoddau hylifol	27	(26,745)	26,573
Cyllido	28	15,786	(3,463)
<b>(Gostyngiad)/Cynnydd yn yr arian yn y cyfnod</b>		<u>(824)</u>	<u>2,700</u>
<b>Cysoni'r llif arian net â'r symud mewn cronfeydd net</b>			
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian yn y cyfnod	29	(824)	2,700
Mewnlif/(All-lif) arian o adnoddau hylifol	29	26,745	(26,573)
All-lif arian o'r (cynnydd)/gostyngiad yn y ddyled	29	(15,786)	3,463
Symud yn y cronfeydd net yn ystod y cyfnod		<u>10,135</u>	<u>(20,410)</u>
Cronfeydd net ar 1 Awst		<u>42,647</u>	<u>63,057</u>
Cronfeydd net ar 31 Gorffennaf		<u><u>52,782</u></u>	<u><u>42,647</u></u>

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2006

### 1. Y CONFENSIWN CYFRIFYDDA

#### Sail y Paratoi

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi'u paratoi yn unol â Safonau Cyfrifydda sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig ac yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifydda mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch ("SORP"). Os yw'n berthnasol, mae'r Datganiadau Ariannol yn dilyn cyfarwyddiadau cyfrifydda CCAUC.

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu FRS 17 – Buddion Ymdeol yn ystod y flwyddyn ac mae'r ffigurau cymharol wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r newid hwnnw yn y polisi cyfrifydda mewn perthynas â chostau pensiwn.

Effaith y newid yn y polisi cyfrifydda i fabwysiadu FRS 17 oedd gostwng £1,612k ar y costau staffio (2005: cynnydd o £163k) a gostwng £600k (2005: £700k) ar y llog a oedd yn daladwy, gan arwain at gynnydd o £1,012k (2005: gostyngiad o £862k) yn y gwarged gweithredu am y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r symiau a godwyd i'r datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig wedi cynyddu £2,400k (2005: £10,800k) ac wedi gostwng £38,724k ar y cronfeydd wrth gefn wrth agor ar 1 Awst 2005.

#### Sail y Cyfrifydda

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd drwy ailbrisiu'r Buddsoddiadau Ased Gwaddol a rhai asedau sefydlog penodol.

#### Sail y Cyfnerthu

Er bod y Datganiadau Ariannol cyfnerthedig yn cyfnerthu Datganiadau Ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau am y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Gorffennaf, nid ydynt yn cynnwys rhai Undeb y Brifysgol na rhai Cardiff Partnership Fund Cyf am nad oes gan y Cyngor reolaeth dros eu gweithgareddau ariannol a gweithredol. Mabwysiedir polisiâu cyfrifydda unffurf ledled y Grwp.

#### Cydnabod Incwm

Mae incwm o Waddolion a Rhoddion Penodol, Grantiau a Chontractau Ymchwil a Gwasanaethau Eraill a Ddarparwyd wedi'i gynnwys i'r graddau y tynnwyd y gwariant uniongyrchol yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag unrhyw gyfraniadau cysylltiedig at gostau gorbenion. Credyd yr holl incwm o adneuo tymor-byr a Buddsoddiadau Ased Gwaddol Cyffredinol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail dderbyniadwy. Caiff grantiau penodol sydd heb eu gwario eu dwyn ymlaen fel Incwm Gohiriedig.

Caiff grantiau rheolaidd gan y Cyngorau Cyllido eu cydnabod yn y cyfnod y'u ceir hwy.

#### Darpariaeth ar gyfer Dyledion Amheus

Gwneir darpariaeth benodol ar gyfer dyledion unigol os bernir bod amheuaeth ynglyn â'u hadennill. Darperir ar gyfer dyledion ffioedd ymchwil, dysgu a llety ar sail profiad hanesyddol. Ni ddiddymir dyledion ffioedd dysgu a llety ond os bydd myfyrwyr yn methu â dychwelyd. Darperir ar gyfer yr holl ddyledion eraill yn llawn os ydynt dros 12 mis oed.

#### Cynlluniau Pensiwn

Y pedwar prif gynllun pensiwn diffiniedig i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (yr USS), Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (y CUPF), Cynllun Blwydd-dal Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru (y CU(WCM)SS) a'r Cynllun Llywodraeth Leol (yr LGS). Cynlluniau budd-dal diffiniedig a ariannir yw'r rhain, ac maent wedi'u contractio allan o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion. Prisir y cronfeydd bob tair blynedd gan actiwari sydd â chymwysterau proffesiynol ac fe wnaiff hynny gan ddefnyddio'r dull cronni neu'r dull oed-a-gyrhaeddwyd, ac ymddiriedolwyr y cynllun, ar sail y cyngor a gânt gan yr actiwari, sy'n penderfynu ar gyfraddau'r cyfraniadau sy'n daladwy.

Mewn perthynas â'r CUPF, y CU(WCM)SS a'r LGS, yr ased neu'r atebolrwydd net a gydnabyddir yn y fantolen yw gwerth presennol y rhwymedigaethau o ran buddion diffiniedig llai gwerth teg asedion y cynllun. Mesurir asedau'r cynllun gan ddefnyddio cyfraddau'r farchnad wrth iddi gau, a mesurir yr atebolrwyddau o ran pensiwn gan ddefnyddio dull yr uned a daflunnir ac yna'i disgowntio ar gyfradd elw gyfredol bondiau corfforaethol sydd o safon uchel ac â thelerau tebyg. Caiff y cynnydd yng ngwerth presennol yr atebolrwydd y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth y gweithwyr cyflog yn ystod y flwyddyn ei godi ar gostau staff. Caiff yr elw disgwylidig ar asedau'r cynllun a'r cynnydd yn ystod y flwyddyn yng ngwerth presennol atebolrwyddau'r cynllun yn sgil treigl amser eu codi fel traul llog. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraid yn y datganiad o gyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig.

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

### Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2006

Gan nad oes modd adnabod cyfran y Brifysgol o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol yr USS, fe gyfrifir am yr USS, fel y caniateir gan FRS 17, fel cynllun cyfraniadau diffiniedig a chodir y cyfraniadau iddo ar gostau staff yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, mae Cynllun Blwydd-dal y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn weithredol yn achos rhai aelodau o'r staff. Cynllun cyfraniadau diffiniedig sydd heb ei ariannu yw cynllun y GIG, a thelir budd-daliadau pensiwn o'r cyfraniadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ac yn ôl y cyfraddau cyfrannu y penderfynir arnynt gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

#### **Arian Tramor**

Cofnodir trafodion a wneir mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid a oedd ar waith ar ddyddiadau'r trafodion. Trosir asedau ariannol ac atebolrwyddau mewn arian tramor i arian Prydain yn ôl y cyfraddau diwedd-blwyddyn a chaiff y gwahaniaethau yn y cyfraddau cyfnewid sy'n deillio o hynny eu cynnwys wrth benderfynu ar y diffyg neu'r gwarged am y flwyddyn.

#### **Prydlesi**

Mae prydlesi ariannol, sef prydlesi sy'n rhoi'r un hawliau i raddau helaeth â pherchnogaeth, sy'n gysylltiedig ag eitemau sylweddol o ran peiriannau, offer a cherbydau wedi'u cyfalafu a'u dibrisio yn unol â pholisi dibrisio'r Brifysgol, yn amodol ar uchafswm cyfnod tymor y brydles. Mae elfen llog cyfalaf y taliadau prydles yn y dyfodol wedi'i chynnwys yn 'credydwy'r eraill'. Mae elfen llog y taliadau prydles yn gyfran gyson o'r balans cyfalaf sy'n ddyledus ac fe'i codir i'r cyfrif elw a cholled dros gyfnod y brydles.

Caiff incwm a chostau rhent dan brydlesi gweithredol eu credydu a'u codi i incwm ac i wariant, yn y drefn honno, mewn cyfansymiau blynyddol cyfwerth dros gyfnodau'r prydlesi.

#### **Tir ac Adeiladau**

Mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â darpariaethau FRS15 (Agedau Sefydlog Diriaethol) ac wedi cadw Tir ac Adeiladau yn ôl eu gwerth llyfr net (yn amodol ar y gofyniad i'w hadolygu'n flynyddol am amhariad arnynt). Cynhaliwyd y prisiad diwethaf o eiddo hen Brifysgol Caerdydd ym mis Gorffennaf 1998 gan Gerald Eve, Tirfesurwyr Siartredig. Prisiwyd eiddo prydlesol ar safle Prifysgol Cymru, Ymddiriedolaeth y GIG gan Asiantaeth Swyddfa Brisio Caerdydd a gwnaed y prisiad o eiddo arall yr hen CMPC gan Burnett Davies, Tirfesurwyr Siartredig.

Gynt, sail prisiad eiddo rhydd-ddaliadol anarbenigol ac eiddo prydlesol anarbenigol oedd y gwerth ar y farchnad agored ar gyfer y defnydd cyfredol ohonynt; sail prisiad eiddo rhydd-ddaliadol arbenigol ac eiddo prydlesol arbenigol oedd cost yr ailosod ar ôl y dibrisio ac mae'r gwerth hwnnw wedi'i bennu bellach. Delir tir yn rhydd-ddaliadol ac ni chaiff ei ddibrisio am y credir bod iddo oes ddefnyddiol amhenodol.

Dibrisir adeiladau dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig o 50 mlynedd a thir prydlesol dros oes y brydles hyd at uchafswm o 50 mlynedd. Caiff adnewyddiadau sylweddol sydd â chost cyfalaf o fwy na K£250 ac sy'n cynyddu gwerth yr adeiladu eu cyfalafu a'u dibrisio dros 15 mlynedd.

Os caiff adeiladau eu caffael gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y gwnaed uchod. Caiff y grantiau cysylltiedig eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr adeiladau.

Mae'r Brifysgol yn glynu wrth Femorandwm Ariannol CCAUC sy'n ei gwneud hi'n ofynnol cael cymeradwyaeth CCAUC cyn bod modd cychwyn trafodion sy'n effeithio ar eiddo a adeiladwyd neu a ddatblygwyd gyda grantiau a dalwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail cyngor y Cynghorau Cyllido.

#### **Offer**

Caiff gwerth offer sy'n costio llai na £10,000 yr eitem neu grwp o eitemau cysylltiedig ei ddileu ym mlwyddyn eu caffael. Caiff yr holl offer eraill eu cyfalafu.

Caiff offer a gyfalafwyd eu rhestru yn ôl eu cost a chânt eu dibrisio ar sail llinell syth dros dymor y brydles fyrraf a'r oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Prif gyfrifiadur ac offer ffôn	- 7 mlynedd
Cerbydau modur ac offer cyffredinol eraill	- 4 blynedd

# PRIFYSGOL CAERDYDD

## **NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2006**

Os ceir offer gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y dangosir uchod. Caiff y grantiau cysylltiedig eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr offer.

### **Grantiau a chyfraniadau cyfalaf**

Rhoir cyfrif am grantiau a chyfraniadau cyfalaf a gafwyd gan y Brifysgol i gyllido gwaith adeiladu neu brynu asedau cyfalaf fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau cysylltiedig.

### **Buddsoddiadau**

Cynhwysir Buddsoddiadau Ased Gwaddol yn y Fantolen yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Cynhwysir Buddsoddiadau Ased Cyfredol yn ôl yr isaf o'r gost a'r gwerth ar y farchnad.

### **Stociau**

Stociau cemegol canolog a nwyddau traul masnachol Arlwyo a'r Uned Waith yw'r stociau. Prisir hwy yn ôl y gost isaf neu'r gwerth pris gwerthadwy net.

### **Cynnal a Chadw Eiddo**

Mae gan y Brifysgol gynllun cynnal a chadw treigl a adolygir bob blwyddyn. Codir cost y cynnal a chadw cywirol rheolaidd i'r cyfrif incwm a gwariant wrth iddi godi.

### **Statws Treth**

Gan fod y Brifysgol yn elusen sydd wedi'i heithrio o fewn ystyr Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993, mae'n elusen o fewn ystyr Adran 506(1) Deddf Trethi 1988. Yn unol â hynny, mae'r Brifysgol wedi'i heithrio, o bosibl, rhag talu treth mewn cysylltiad â'r incwm neu'r enillion cyfalaf a geir o fewn y categorïau a ddaw o dan Adran 505 Deddf Trethi 1988 neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y caiff yr incwm hwnnw neu'r enillion hynny ei gymhwyso neu eu cymhwyso'n gyfan gwbl at ddibenion elusennol. Nid yw'r Brifysgol wedi'i heithrio rhag Treth ar Werth yn yr un modd.

### **Treth Ohiriedig**

Cydnabyddir treth ohiriedig mewn cysylltiad â'r holl wahaniaethau amseru sydd wedi cychwyn ond heb eu gwrth-droi ar ddyddiad y fantolen lle mae'r trafodion neu'r digwyddiadau'n arwain at rwymedigaeth i dalu rhagor o dreth yn y dyfodol, neu at hawl i dalu llai o dreth yn y dyfodol. Mesurir treth ohiriedig yn ôl cyfartaledd y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yn y cyfnod y disgwylir i'r gwahaniaethau amseru gael eu gwrth-droi ynddo, a hynny ar sail y cyfraddau a chyfraith treth sydd wedi'u deddfu neu wedi'u deddfu i bob pwrpas ar ddyddiad y fantolen. Ni chydabyddir asedau treth gohiriedig ond i'r graddau yr ystyrir ei bod hi'n fwy tebygol na pheidio y bydd gwargedau trethadwy y gellir didynnu costau gwrth-droi'r gwahaniaethau amseru sylfaenol ohonynt yn y dyfodol. Ni ddisgowntir balansau treth ohiriedig.

### **Arian ac Adnoddau Hylifol**

Mae adneuon arian tymor-byr gyda banciau, cymdeithasau adeiladu a gwarantau llywodraethol cydnabyddedig, y gellir codi arian ohonynt ar alw neu heb rybudd a heb gosb berthnasol, wedi'u cynnwys yn y balansau arian yn y fantolen gyfnerthedig a'r datganiadau llif arian cyfnerthedig.

### **Darpariaethau**

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan y sefydliad rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol ac mae'n debyg y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o gyfanswm y rhwymedigaeth.

## PRIFYSGOL CAERDYDD

### NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2006

#### 2. GRANTIAU'R CYNGOR CYLLIDO

	Nodyn	2006 £'000	2005 £'000
Grant rheolaidd		100,688	94,880
Grantiau penodol:			
- Cronfa'r Uno		1,719	1,480
- Isadeiledd Academaidd		1,610	1,510
- Cymorth Dysgu ac Addysgu		1,842	1,335
- Myfyrwyr ag Anableddau		1,305	-
- Y Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Wyddonol		94	125
- Datblygiad Economaidd Addysg Uwch		1,342	1,047
- Cronfeydd Atodol		544	734
- Cymorth Academaidd ar gyfer yr Ymarfer Asesu Ymchwil		553	-
- Y Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil		50	50
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg		-	13
- Dyfarniad Cyflogau Meddygol		1,146	1,065
- Ysgolion Clinigol Gogledd Cymru		296	-
- Eraill		752	742
